Strategaeth Gorfforaethol 2008 - 2011

Cymorth HAFOD Care

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i ateb problemau tai ac i ddarparu cymorth sy'n rhoi'r grym i unigolion fagu hyder, i deimlo eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch eu bywydau a mwynhau bywyd yn eu cymunedau

CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Gofal Hafod ym mis Tachwedd 2002 ac mae'n rhan o Grŵp Hendre. Mae Hendre yn cynnig gwasanaethau corfforaethol (ariannol, datblygu, TG ac adnoddau dynol) sy'n helpu i gefnogi Gofal Hafod i ganolbwyntio ar gyflwyno gwasanaethau o ansawdd uchel i bobl hŷn a phobl fregus yn ne Cymru.

Dyma ein hail Strategaeth Gorfforaethol fel Gofal Hafod ac mae'n cynnig arweiniad i'n nodau a'n hamcanion strategol ar gyfer y cyfnod rhwng 2008 - 2013. Amlinellir ein cynlluniau ar gyfer y bum mlynedd nesaf yn yr adran derfynol. Mae ein bwriadau i'r dyfodol yn adeiladu ar lwyddiannau'r pum mlynedd ddiwethaf ac maent wedi'u gwreiddio yn ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o ddatblygiadau o fewn agendâu cenedlaethol a lleol.

O fewn yr hinsawdd gyfnewidiol hon ein nod cyffredinol yw defnyddio ein hegni i wella bywydau pobl fregus ac sydd angen cymorth a chefnogaeth ymarferol i deimlo'n ddiogel, i fwynhau eu bywydau a gwireddu eu potensial. Ein dymuniad yw cynnig dewisiadau i bobl fel y gallan nhw fod yn fodlon ac yn hyderus wrth fanteisio ar rwydweithiau cymdeithasol er mwyn dilyn eu hobïau a datblygu eu sgiliau a'u diddordebau.

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fel yr amlinellir yn ei dogfen arloesol 'Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru' 2004. Mae'r ddogfen hon a chyhoeddiadau ac arweiniadau strategol cenedlaethol ategol yn rhoi her i ni a'n partneriaid sicrhau fod yr hyn yr ydym yn ei wneud yn gwneud cyfraniad positif wrth i ni

Cyswllt

Gofal Hafod
2il Lawr,
St. Hilary Court,
Copthorne Way,
Croes Cwrlwys,
Caerdydd,
CF5 6ES

Ffôn: (029) 2067 2300

www.hafodcare.co.uk

drosi'r weledigaeth hon a gwella gwasanaethau ar lefel leol. Yn fwy diweddar mae elfennau allweddol o hyn wedi'u cyfuno yn 'Agenda Cymru'n Un' 2007 sy'n dangos y cytundeb partneriaeth rhwng Llafur a Phlaid Cymru.

O ganlyniad i hynny mae ein hymdrechion wedi canolbwyntio ar gymryd rôl ragweithiol wrth wrando ar, a dod i ddeall, blaenoriaethau comisiynwyr lleol. O dan arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol, mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol wedi cynhyrchu fframweithiau strategol manwl a'n rôl ni yw dadansoddi eu blaenoriaethau wrth gynhyrchu tai, gofal a gwasanaethau cefnogi arloesol a chreadigol, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau. Diben y ddogfen hon yw amlinellu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni a sut y gobeithiwn adeiladu ar hyn yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Amlinellir y Strategaeth Gorfforaethol hon o dan 3 adran:

1 - Amdanom Ni

2 - Gwneud Gwahaniaeth

Agendâu cenedlaethol a phartneriaethau lleol

3 - Y Ffordd Ymlaen

Rydym yn croesawu eich barn, cysylltwch â ni ar **(029) 2067 2300** i gael gwybodaeth bellach ar ein gweithgaredd neu i drafod unrhyw ran o'r ddogfen hon yn fanylach.

Peter Williams, Cadeirydd

Robert Wathen, Rheolwr Gyfarwyddwr

‘Rydym yn teimlo’n ddiogel – mae gennym bwynt larwm a gallwch ffonio rhywun os ydych yn teimlo’n isel eich ysbryd’

Amdanom Ni

Y Bwrdd:

Mae gennym 15 o aelodau ar y Bwrdd sydd â phrofiad o weithio mewn gwasanaethau rheng flaen ac ar fel uwch reolwyr mewn sefydliadau ariannol, awdurdodau lleol a’r sector iechyd. Eu swyddogaeth yw darparu trefn lywodraethol effeithiol i'r Gymdeithas. Mae’r Bwrdd yn goruchwylio ein gwaith strategol, swyddogaethau gweithredol ein bwrdd ac yn sicrhau bod Cymdeithas Gofal Hafod yn gadarn yn ariannol, yn dryloyw ac yn sefydliad atebol.

Staff:

Rheolwr Gyfarwyddwr Gofal Hafod yw Robert Wathen, yn cael ei gefnogi gan David Lewis fel Cyfarwyddwr Gofal a Gwasanaethau Cefnogaeth.

Mae gennym ddeg o swyddogion uwch gyda gwanhaol sgiliau a chefndir yn y sectorau gofal cymdeithasol a thai â chymorth. Mae eu sgiliau yn amrywio ar draws yr holl grwpiau cleient sy’n rhan o’r drefn Cefnogi Pobl ac yn ychwanegol ac ar ben hynny mae ganddyn nhw brofiad ymarferol o fodloni amrywiol anghenion pobl hŷn.

Mae Gofal Hafod yn cyflogi dros 400 o staff. Mae nifer ein staff wedi cynyddu 15% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a chan chwarter ers cynhyrchu ein Cynllun Corfforaethol diwethaf. Yn ystod cyfnod o dwf rheolaidd yn y gwasanaeth mae’n hanfodol bod ein staff yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda a’u bod yn hyderus yn eu swyddogaeth. Mae gan dros 50% gymwysterau sy’n uwch na lefel 2 NVQ ac mae'r holl arweinwyr tîm wedi cyflawni o leiaf lefel 3. Mae staff Hendre yn gweithio gyda'n uwch staff i gael hyfforddiant o ansawdd da i sicrhau ein bod yn cadw at ofynion deddfwriaethol ac ymarfer gorau wrth ddarparu ein gwasanaethau'n ddiogel.

‘Rydym yn cael cefnogaeth dda ar lawer o bethau – help i lanw ffurflenni, sesiynau cefnogi, delio gyda llythyrau, siopa, coginio a chadw cyllideb’

‘Parch, cymhelliad, ymrwymiad, addysg’

‘Mae llawer o anogaeth i wneud pethau . Mae’r staff yn hamddenol – dydyn nhw yn rhoi pwysau arnoch chi’

Sicrhau ansawdd:

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi cael ein hachredu o dan ISO 9001. Mae ansawdd yn ganolog i’r hyn yr ydym yn ei wneud ac mae gwybodaeth ar sut yr ydym yn perfformio a’r hyn yr ydym yn ei gyflawni yn cael ei adrodd wrth y Bwrdd yn rheolaidd. Rydym yn dilyn rhaglen o welliant parhaus trwy ddysgu o’n profiadau. Rydym yn addasu polisïau ac arferion o ganlyniad i adborth y byddwn yn ei dderbyn trwy’r dulliau a amlinellir isod:

‘Rydym wedi cael cyfarfodydd tenantiaid ers dwy flynedd yn awr – rydym wedi trafod llawer o bethau. Rydym yn adnabod ein gilydd yn well erbyn hyn’

Adroddiadau i’r Bwrdd

Cyfranogi mewn Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi’i gydlynu gan Hendre

Adolygiadau allanol:

- Adolygiadau Cefnogi Pobl
- Adolygiadau Gwelliant Parhaus
- Adroddiadau Arolygu AGGCC
- Adroddiadau’r Comisiwn Archwilio

Aelodau’r Bwrdd:

- Derbyn adroddiadau ansawdd Mewnol ac Allanol
- Mynychu cyfarfodydd tŷ
- Derbyn adroddiadau eiriolaeth
- Mynychu Grŵp Monitro Perfformiad

www.hafodcare.co.uk

Defnyddwyr gwasanaeth:

Mae gennym ddau grŵp tenantiaid sydd wedi eu hen sefydlu. Tyfodd a datblygodd rôl a swyddogaethau'r grwpiau yn ystod y blynyddoedd diweddar. Mae'r cyfarfodydd yn cynnig cyfleoedd i bobl gymdeithasu a chefnogi'i gilydd yn ogystal â bod yn llwyfan i bobl leisio eu barn ar y gwasanaethau y maent yn eu derbyn ac i gynnig syniadau newydd ynghylch sut y gallwn gydweithio i wella ein gwasanaethau. Yn ei hanfod, trwy gefnogi'i gilydd a chael gwybodaeth maen nhw'n teimlo eu bod yn gallu deall, rhannu a dehongli eu profiadau yn well. Eu safbwynt yw bod hyn wedi eu galluogi i deimlo'n fwy hyderus a phendant ynghylch yr hyn y maen nhw eu hangen, y gefnogaeth y maen nhw'n ei dderbyn gennym ni a gwasanaethau eraill yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Buom yn ymgynghori gyda thenantiaid ynghylch y cynllun corfforaethol hwn i ganfod eu barn ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Amlinellir isod beth o'r adborth ynghylch yr hyn y maen nhw'n ei werthfawrogi ynghylch y tai a'r gwasanaethau cefnogaeth yr ydym yn eu darparu:

Proffil stoc:

Rydym wedi ehangu'n sylweddol yn ystod y cyfnod y Cynllun Corfforaethol diwethaf fel y dengys y tabl isod. Ehangwyd fwyaf wrth i ni ddatblygu gwasanaethau i fodloni gwahanol anghenion y boblogaeth hŷn. Roedd yr unig faes i ni grebachu (cymorth i denantiaid a chymorth symudol) o ganlyniad i wrthdyniad a/neu ailddyrannu arian o dan y drefn cefnogi pobl.

Amlinellir dadansod

ein gwasanaethau

'Awyrgylch cyfeillgar a da'

Mathau o ddarpariaeth

	2004	2008
Nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau a reolir yn uniongyrchol gan Gofal Hafod:		
Pobl hŷn (gan gynnwys gofal cartref a gofal dydd)	543	900
Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl	112	130
Cefnogaeth i denantiaid a chefnogaeth symudol	166	208
Cyfanswm nifer y bobl y mae Gofal Hafod yn cynnig gwasanaethau yn uniongyrchol iddyn nhw:	**789**	**1035**
Gwasanaethau partneriaeth: h.y. nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau gan asiantaethau eraill trwy bartneriaethau gyda Gofal Hafod	74	137
Cyfansymiau cyfun – nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaethau	**895**	**1272**

diad daearyddol

ar hyn o bryd isod

Merthyr Tudful

Gwasanaethau partneriaeth

- Gwasanaethau partneriaeth yn darparu 6 uned o lety

Partner a ffafrir ar gyfer Datblygu Gofal Ychwanegol

Pen-y-bont ar Ogwr

Rheoli'n uniongyrchol

- 2 cartref gofal ar gyfer pobl hŷn yn darparu gwasanaethau i 156 o bobl
- 3 o wasanaethau yn cynnig llety i 12 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Gwasanaethau cymorth symudol i 10 o bobl
- Gwasanaethau cymorth tenantiaid i 20 o bobl

Gwasanaethau partneriaeth

- yn darparu 21 uned o lety

Rhondda Cynon Taf

Rheoli'n uniongyrchol

- 2 o wasanaethau yn cynnig llety i 10 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Cymorth Tenantiaid i 27 o bobl
- Gofal cartref i 184 o bobl

Gwasanaethau partneriaeth yn darparu 13 uned o lety

Bro Morgannwg

Rheoli'n uniongyrchol

- 2 o gartrefi gofal yn cynnig gwasanaethau i 55 o bobl hŷn
- 3 o wasanaethau yn cynnig llety i 16 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Cymorth Tenantiaid i 38 o bobl
- Cymorth Symudol i 10 o bobl

Partner a ffafrir ar gyfer Datblygu Gofal Ychwanegol

Torfaen

Rheoli'n uniongyrchol

- 4 o gartrefi gofal yn cynnig gwasanaethau i 151 o bobl
- Gwasanaethau gofal cartref i 4 o bobl
- Gofal dydd ar 2 safle i 89 o bobl

Caerdydd

Rheoli'n uniongyrchol

- 7 o gartrefi gofal yn cynnig gwasanaethau i 252 o bobl hŷn
- 11 o wasanaethau yn cynnig llety i 78 o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl
- Cymorth symudol i 20 o denantiaid

Gwasanaethau partneriaeth

- The Huggard (20 uned)
- The Wallich (25 uned)
- SCOPE (2 uned)

Agendau Cenedlaethol a Phartneriaethau Lleol

Mae ein datblygiad a darpariaeth ein gwasanaeth wedi'i seilio ar hanes a phrofiad o bartneriaethau cryf gyda sefydliadau ac unigolion yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Seilir hyn ar wybodaeth o agendâu a blaenoriaethau cenedlaethol.

LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AC 'AGENDA CYMRU'N UN'

Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad Syr Jeremy Beecham o Gyflwyno Gwasanaeth Lleol – 'Cyflawni ar Draws Ffiniau: Gweddnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru' ym mis Tachwedd 2006. Mae'r camau a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn adeiladu ar y rhai a amlinellwyd yng nghyhoeddiad 'Creu'r Cysylltiadau' yn 2004 ac yn amlinellu pum maes gweithredu allweddol yn yr adroddiad:

- **Rhoi dinasyddion yn gyntaf**
- **Cydweithio er mwyn cyflwyno**
- **Gweithlu o safon fyd-eang**
- **Gwell Gwerth am y bunt Gymreig**
- **Gyrru'r newid: llywodraeth, adnoddau a pherfformiad**

CYNLLUN CYMUNEDOL AWDURDOD LLEOL

- Strategaeth Dai Leol (5 mlynedd) a Chynllun Gweithredol Tai Lleol (blynyddol)
- Y Strategaeth Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles

Is strategaethau tai:

- Strategaeth Ddigartrefedd
- Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl
- Strategaethau Amrywiaeth a chydraddoldeb

Is strategaethau – gofal cymdeithasol:

- Pobl hŷn
- Anableddau dysgu
- Iechyd Meddwl
- Plant a phobl ifanc

Ein Partneriaid Comisiynu:

Ymddiriedolaethau Iechyd, Byrddau Iechyd Lleol, Tai, timau Cefnogi Pobl, Gwasanaethau Cymdeithasol,

Ein Partneriaid yn y gwasanaethau Cyflwyno

Timau Iechyd Meddwl Cymunedol, Meddygon Teulu, Nyrsys Cymunedol, ffisiotherapyddion, Rheolwyr Gofal, Swyddogion Tai a Digartrefedd, Timau Troseddau Ieuenctid, Swyddogion Prawf ac amrywiaeth o asiantaethau yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth yn y sector gwirfoddol

Ein cyfraniad

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein hymdrechion yn cyfrannu at agenda genedlaethol i wella gwasanaethau cyhoeddus trwy lunio partneriaethau positif yn lleol (trwy bresenoldeb ar fforymau a chyfarfodydd unigol) er mwyn dehongli'r agenda hon ac i lwyddo i gael gwasanaethau sy'n adlewyrchu blaenoriaethau lleol, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn effeithiol ac yn werth am arian.

Isod rydym wedi amlinellu rhai o'n prif lwyddiannau.

'Mae cydweithio yn hanfodol i gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus o'r ansawdd gorau: rhaid iddynt fod yn ymatebol i anghenion unigolion a chymunedau, rhaid eu cyflwyno'n effeithiol a'u gyrru gan ymrwymiad at gyfiawnder cymdeithasol'
Creu'r Cysylltiadau: Cyflenwi Gwell Gwasanaethau yng Nghymru Llywodraeth Cynulliad Cymru 2004

'Mae Llywodraeth y Cynulliad eisiau gweld twf cynaliadwy mewn sector cartref gofal hyderus a dichonadwy i'r dyfodol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn bodoli i gefnogi pobl hŷn fregus……..Ein nod yw sicrhau datblygiad Sector Gofal cynhwysfawr o safon uchel yng Nghymru yn ystod y ddegawd nesaf'
Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003

Yn **Rhondda Cynon Taf** rydym wedi ymestyn ein cynllun gofal cartref ar gyfer pobl hŷn a'r rhaii â demensia i gefnogi 188 o bobl

Yng **Nghaerdydd** rydym wedi sicrhau Grant Tai Cymdeithasol i weithio gyda'r Huggard a'r awdurdod lleol i ymestyn lle y maen nhw'n gweithio ar hyn o bryd i gynnwys gwasanaeth derbyn i asesu anghenion tai ac i gefnogi a chynnig cyngo i bobl

www.hafodcare.co.uk

Rydym yn datblygu cynlluniau gyda Sefydliad y Deillion **Caerdydd** i ddatblygu tai ar gyfer pobl gyda nam ar y golwg yng nghanol y ddinas

Yn ystâd Brocastle ger **Pen-y-bont ar Ogwr** rydym yn agosáu ar gwblhau cytundeb i weddnewid plasty rhestredig gradd II a'i ystâd i gartref gofal modern a 37 o fflatiau a thai yn cynnig amgylchedd diogel a heb ofid ar ôl ymddeol

'Helpu pobl hŷn i ganfod y gwasanaethau tai a'r cymorth y maen nhw eu hangen yn y ffordd fwyaf effeithiol' a 'parhau yn eu cartrefi mor hir ag sy'n ymarferol bosibl'
Cartrefi Gwell i Bobl Cymru – Strategaeth Dai Genedlaethol. Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae cydweithio yn parhau i foderneiddio y gwasnaethau presennol ac i ddarparu amrywiaeth o ddewisiadau tai a chefnogaeth ar gyfer pobl hŷn yn **Nhorfaen, Merthyr, Caerffili, Caerdydd a Bro Morgannwg**

Rydym wedi sicrhau Grant Tai Cymdeithasol gyda YMCA **Pen-y-bont ar Ogwr** i ddatblygu prosiect i gefnogi pobl ddigartref fregus

Dim ond trwy mewn partneriaeth ar lefel leol a chenedlaethol y gellir mynd i'r afael â digartrefedd……..fe'i bwriedir fel Strategaeth gwbl genedlaethol yn gofyn am gyswllt adeiladol gan sectorau polisi eraill, gan gynnwys iechyd, gwasanaethau cymdethasol ac addysg.'
Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd Cymru. Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006 – 2008

Ein GWELEDIGAETH yw gweithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu tai a chefnogaeth sy'n rhoi'r nerth i unigolion fagu hyder, i deimlo eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch eu bywydau a mwynhau bywyd yn eu cymunedau.

Ein Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw'r canlyniad cyffredinol yr ydym yn ceisio ei gyflawni ac mae'n nodau yn amlinellu ein ffordd strategol o gyflawni ein gweledigaeth. Y gwerthoedd yw'r ffordd y dymunwn gyflawni pethau. Nid yw ein gweledigaeth na'n gwerthoedd wedi newid o'n Strategaeth Gorfforaethol ddiwethaf gan ein bod yn teimlo eu bod yn parhau yn strategol berthnasol. Mae'r tudalennau a ganlyn yn cynnwys manylion o dan bob nod ynghylch yr amcanion y byddwn yn eu ceisio eu cyrraedd yn ystod oes y Strategaeth hon er mwyn gwireddu ein gweledigaeth a nodau.

5 amcan strategol

Ein GWELEDIGAETH yw gweithio gyda phartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth i ddarparu tai a chefnogaeth sy'n rhoi'r nerth i unigolion fagu hyder, i deimlo eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ynghylch eu bywydau a mwynhau bywyd yn eu cymunedau. **Byddwn yn gwireddu ein gweledigaeth trwy fodloni'r 5 amcan strategol isod. Mae pob amcan strategol wedi'i gefnogi gan set o werthoedd sy'n disgrifio ac yn diffinio'r ffordd y byddwn yn gweithio.**

Amcan 1

ADEILADU A CHYNNAL PARTNERIAETHAU STRATEGOL EFFEITHIOL

Gwerthoedd – Perthnasedd, creadigedd a hyblygrwydd

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol er mwyn chwarae rhan weithgar mewn datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cyfarfod anghenion pobl fregus ac yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol yn lleol.

Amcan 2

CYFATHREBU AC YMGYNGHORI GYDA PHARTNERIAID ALLWEDDOL

Gwerthoedd – Didwylledd, ymatebolrwydd a hygyrchedd

Byddwn yn ceisio deall a bod â rhan mewn trafodaethau lleol ynghylch anghenion tai a chefnogaeth ar gyfer pobl fregus ac yn cyfarfod â hynny. Byddwn yn sicrhau bod ein partneriaid yn ymwybodol o ystod ein gwasanaethau, ein harbenigedd a'n gallu i gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau yn lleol.

Y gwerthoedd yw'r ffordd y dymunwn gyflawni pethau.

Amcan 3

YW DARPARU A CHYNNAL GWASANAETHAU O ANSAWDD UCHEL

Gwerthoedd - Rhagoriaeth ac arloesedd

Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, staff a rheoleiddwyr i hyrwyddo ethos o welliant parhaus ac i sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu safonau modern o ymarfer gorau.

Amcan 4

YW CYNNAL GWEITHLU CRYF AC ARBENIGOL

Gwerthoedd – Perchnogaeth, hunaniaeth ac ymrwymiad

Byddwn yn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod ganddyn nhw'r cyfarpar i ddarparu gwasanaethau ar lefel weithredol sy'n effeithiol, yn ymatebol ac yn greadigol ac sy'n galluogi cleientiaid fwynhau bywyd a byw'n annibynnol.

Amcan 5

YW SICRHAU IECHYD A CHRYFDER EIN BUSNES

Gwerthoedd – Gonestrwydd, atebolrwydd a chyfrifoldeb

5 amcan strategol...

Amcan 1

ADEILADU A CHYNNAL PARTNERIAETHAU STRATEGOL EFFEITHIOL

Gwerthoedd – Perthnasedd, creadigedd a hyblygrwydd

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol er mwyn chwarae rhan weithgar mewn datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n cyfarfod anghenion pobl fregus ac yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol yn lleol. Yn ystod y pum mlynedd nesaf byddwn yn:

- Cwblhau datblygu gwasanaethau Gofal Ychwanegol ym Mro Morgannwg, Merthyr ac awdurdodau lleol eraill
- Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i symud eu menter ymlaen i ddatblygu mwy o ddarpariaeth cartrefi nyrsio yng Nghymru
- Parhau gyda'n gwaith gyda Chyngor Dinas Caerdydd i sicrhau bod ein cartrefi gofal presennol ar gyfer pobl hŷn yn gallu bodloni anghenion cynyddol amrywiol pobl hŷn yn yr ardal
- Ceisio ymestyn ein gwasanaethau gofal cartref yn Rhondda Cynon Taf, Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen a chystadlu am wasanaethau eraill yn y mannau ll'r ydym yn gweithio
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Byrddau Iechyd Lleol i sicrhau ein bod yn defnyddio ein gwasanaethau yn effeithiol er mwyn gostwng arosiadau dianghenraid a hirfaith yn yr ysbyty
- Cwblhau ein datblygiad Brocastle ar gyfer pobl hŷn ger Pen-y-bont ar Ogwr a gweithio gyda phreswylwyr newydd i sicrhau eu bod yn fodlon ac yn hapus gyda safon y gofal, y tai a'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn
- Cystadlu am wasanaethau a fydd yn cael eu tendro o dan y drefn Cefnogi Pobl s fydd yn cyfoethogi ac yn ategu at leoliad a chwmpas ein gwasanaethau ar hyn o bryd.
- Gweithio gyda chomisiynwyr a phartneriaid lleol i ddatblygu'r cynlluniau ym Mhen-y-bont ar Ogwr (YMCA) a Chaerdydd (The Huggard) er mwyn darparu tai, cefnogaeth a gwasanaethau cynghori o ansawdd da i bobl ddigartref

www.hafodcare.co.uk

Byddwn yn ceisio deall a bod â rhan mewn trafodaethau lleol ynghylch anghenion tai a chefnogaeth ar gyfer pobl fregus ac yn cyfarfod â hynny.

Amcan 2

CYFATHREBU AC YMGYNGHORI GYDA PHARTNERIAID ALLWEDDOL

Gwerthoedd – Didwylledd, ymatebolrwydd a hygyrchedd

Byddwn yn ceisio deall a bod â rhan mewn trafodaethau lleol ynghylch anghenion tai a chefnogaeth ar gyfer pobl fregus ac yn cyfarfod â hynny. Byddwn yn sicrhau bod ein partneriaid yn ymwybodol o ystod ein gwasanaethau, ein harbenigedd a'n gallu i gyfrannu at ddatblygu gwasanaethau yn lleol.

- Byddwn yn adolygu ein strategaeth farchnata er mwyn sicrhau bod gennym offer cyhoeddusrwydd effeithiol sy'n adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn ystod y blynyddoedd diweddar ac i roi dealltwriaeth dda i gleientiaid presennol a darpar gleientiaid o bwy ydym ni a'r hyn y gallwn ei gynnig

- Byddwn yn sicrhau ar lefel genedlaethol ein bod yn cyfathrebu ein profiad o ddatblygiadau cymhleth ac arloesol yng nghyswllt datblygu amrywiaeth o wasanaethau i fodloni anghenion cynyddol gymhleth poblogaeth gynyddol hŷn yng Nghymru

- Byddwn yn datganoli mwy o bwerau i uwch swyddogion ar lefel ranbarthol a dirprwyo awdurdod pellach iddyn nhw a rhoi deunyddiau cyhoeddusrwydd newydd i drafod datblygiadau posibl gyda chyrff sy'n comisiynu – a hynny o fewn fforymau lleol ac mewn cyfarfodydd un wrth un

Byddwn yn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod ganddyn nhw'r cyfarpar i ddarparu gwasanaethau ar lefel weithredol sy'n effeithiol, yn ymatebol ac yn greadigol ac sy'n galluogi cleientiaid fwynhau bywyd a byw'n annibynnol.

Amcan 3

YW DARPARU A CHYNNAL GWASANAETHAU O ANSAWDD UCHEL

Gwerthoedd - Rhagoriaeth ac arloesedd

Byddwn yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, staff a rheoleiddwyr i hyrwyddo ethos o welliant parhaus ac i sicrhau bod gwasanaethau yn adlewyrchu safonau modern o ymarfer gorau.

- Byddwn yn neilltuo mwy o amser ac adnoddau i alluogi'r grwpiau tenantiaid ffynnu. Byddwn yn eu cefnogi i symud eu hagenda ymlaen ac i drefnu cyfarfodydd, cynadleddau a digwyddiadau gyda nhw

- Ein nod yw sicrhau bod ein tenantiaid ymwybodol ein bod yn eu cefnogi i ymuno â'r Bwrdd a byddwn yn sicrhau bod gan bobl sydd â diddordeb gefnogaeth a hyfforddiant priodol er mwyn gwireddu hyn a'i wneud yn brofiad positif

- Byddwn yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn gysylltiedig â'r broses o adolygu ein system sicrwydd ansawdd a'u bod yn gallu cyfranogi drwy weithredu unrhyw system newydd a fabwysiadwyd gan y gymdeithas

Amcan 4

YW CYNNAL GWEITHLU CRYF AC ARBENIGOL

Gwerthoedd – Perchnogaeth, hunaniaeth ac ymrwymiad

Byddwn yn sicrhau bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi a bod ganddyn nhw'r cyfarpar i ddarparu gwasanaethau ar lefel weithredol sy'n effeithiol, yn ymatebol ac yn greadigol ac sy'n galluogi cleientiaid fwynhau bywyd a byw'n annibynnol.

- Byddwn yn ailstrwythuro lefelau staffio fesul cyfnod a fydd yn arwain at ddatganoli awdurdod pellach i uwch reolwyr yn lleol

- Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth ac yn rheoli perfformiad i sicrhau bod ein gweithlu lleol yn hyderus, yn wybodus ac yn cyfathrebu'n dda o fewn y strwythur rheoli datganoledig

- Byddwn yn sicrhau trefniadau gydag uwch staff gydag arbenigedd penodol i rannu'r arbenigedd hwnnw ar draws y Gymdeithas a Grŵp Hendre yn gyffredinol

- Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru polisïau a gweithdrefnau ar draws ystod ein gweithgareddau i sicrhau eu bod yn gadarn ac yn adlewyrchu ymarfer gorau

Amcan 5

YW SICRHAU IECHYD A CHRYDER EIN BUSNES

Gwerthoedd – Gonestrwydd, atebolrwydd a chyfrifoldeb

- Adolygu a chryfhau ein prosesau sicrwydd ansawdd mewnol i sicrhau eu bod yn offeryn effeithiol ar gyfer asesu ansawdd yr ystod lawn o'n gwasanaethau.

- Byddwn yn adolygu polisïau, gweithdrefnau a systemau er mwyn iddynt adlewyrchu ystod lawn y gofynion sy'n berthnasol i wahanol grwpiau o gleientiaid a gwahanol fodelau gwasanaeth a sicrhau bod yn ddigon cadarn i gefnogi ein twf a'n datblygiad parhaus

- Byddwn yn adolygu rôl aelodau ein Bwrdd yn lleol i sicrhau eu bod yn gallu cyfranogi'n llawn o fewn y drefn lywodraethol leol ac o ran materion sicrwydd ansawdd a'u bod yn cyfathrebu gyda chomisiynwyr lleol